



Dŵr Cymru
Welsh Water

Hunanasesu effeithlonrwydd dŵr

— ar gyfer busnesau bach

dwrcymru.com





Mae'n hawdd cymryd dŵr yn ganiataol, yn enwedig pan fyddwch yn canolbwyntio ar wneud yr hyn yr ydych yn ei wneud orau – cynnal eich busnes. Dyna pam, fel cwmni dŵr, rydym eisiau eich helpu i sylweddoli pa mor werthfawr yw'r adnodd hwn a deall sut y gallwch chi a'ch busnes helpu i'w warchod.

Beth bynnag yw maint eich busnes, gall dŵr fod yn hanfodol i'ch gweithredu o ddydd i ddydd. Mae dŵr yn bwysig i hyd yn oed y busnesau lleiaf – o wneud te i fflysio toiledau. Wyddoch chi, er enghraifft, eich bod chi'n defnyddio naw litr o ddŵr ar gyfartaledd bob tro yr ydych yn fflysio toiled?

Rydym wedi creu'r canllaw hwn i roi ychydig o gamau hawdd i chi y gallwch eu cymryd i leihau faint o ddŵr yr ydych yn ei ddefnyddio ac, o bosibl, leihau faint o wastraff sydd yn eich busnes. Hefyd, drwy ddefnyddio llai o ddŵr, gallai'ch busnes arbed arian ar y cyflenwad dŵr a gwaredu dŵr gwastraff.

CYNNWYS

Y DULL GDG	3
GWIRIO	4
DEALL	9
GWEITHREDU	10



Y DULL GDG

Bydd y canllaw hunanasesu effeithlonrwydd dŵr hwn yn eich helpu i ddeall sut yr ydych yn defnyddio dŵr ac yn eich cyngori ar gamau ymarferol a all leihau faint o ddŵr yr ydych yn ei ddefnyddio.

Cyn gallu adnabod ble a sut y gellir arbed dŵr, mae angen deall ble, sut a pham mae dŵr yn cael ei ddefnyddio yn eich busnes.

Er mwyn gwneud hyn, rydym yn argymhell y dull GDG sy'n sefyll am:

- Gwirio
- Deall
- Gweithredu

Dyma rai ffeithiau a ffigurau i'ch rhoi ar ben ffordd o ran arbed dŵr:

Defnydd arferol ar gyfer ffitiadau a dyfeisiau



- Toiledau: 6-13 litr y fflysh (fel arfer)
- Sinciau: 6-9 litr y bowlen
- Cawodydd: 30-90 litr y gawod
- Peiriant golchi llestri: 20-40 litr y llwyth
- Golch dillad: 60-100 litr y llwyth
- Pibell yr ardd: 8-30 litr y funud (500-1800 litr yr awr)

Y pethau gwaethaf ar gyfer gwastraffu a gollwng dŵr



- Tapiau sy'n llifo neu'n diferu'n gyson
- Falfiau pêl diffygiol/sestonau sy'n gorlifo
- Wrinalau sy'n fflysio'n gyson
- Pibellau'n gollwng

Faint o wastraff ar gyfer tap sy'n gollwng




- Mae un diferyn yr eiliad yn gwastraffu 4 litr y dydd
- Mae diferion sy'n troi'n llif yn gwastraffu 90 litr y dydd
- Mae llif 3mm yn gwastraffu 985 litr y dydd
- Mae llif 6mm yn gwastraffu 3,500 litr y dydd



GWIRIO

Cam 1 – Nodi Unrhyw Ddŵr sy'n Gollwng

Gellir dadlau mai nodi ac atgyweirio unrhyw ddŵr sy'n gollwng yw ffactor pwysicaf oll effeithlonrwydd dŵr, oherwydd fel perchennog busnes byddwch yn talu am y dŵr (a gwaredu dŵr gwastraff o bosibl) ond yn cael dim budd ohono. Os ydy dŵr yn gollwng ar eich rhwydwaith dŵr preifat (wedi'i ddangos isod), gallai dileu hyn gynhyrchu'r canlyniadau mwyaf ar gyfer effeithlonrwydd dŵr.



Mae mwy o wybodaeth am gyfrifoldeb rhwydwaith dŵr – pwy sy'n berchen ar beth – i'w weld yn ein '**Cod ymarfer ar gyfer dŵr yn gollwng - Cwsmeriaid Dibreswyl**'.

A) Gwnewch archwiliad gweledol o'r holl ffitiadau dŵr sy'n ddiogel eu cyrraedd (tapiau, cawodydd, toiledau, wrinalau ac ati)

Cerddwch o amgylch eich safle busnes i nodi'r holl ffitiadau dŵr sy'n ddiogel eu cyrraedd a sicrhewch nad yw'r un o'r ffitiadau hyn yn gollwng, diferu neu redeg yn gyson. Gwnewch nodyn o'ch canfyddiadau yn y colofnau 'Lleoliad' a 'Diferu' (ydy/nac ydy) o'r Log Gosodiadau a Ffitiadau isod.

Gall Tabledi Canfod Dŵr sy'n Gollwng o Doiledau helpu i ddangos i chi a oes gennych unrhyw ddŵr yn gollwng yn fewnol yn eich toiled (ar gael drwy'r Porth Cynnyrch – Arbed Dŵr Arbed Arian: <https://savewatersavemoney.co.uk/products/toilets>).


Log Gosodiadau a Ffitiadau

	Cam 1A			Cam 2A		
Tapiau	Lleoliad a Math	Diferu		Isel	Canolig	Uchel
		ydy	nac ydy	<9 litr y funud	9-14 litr y funud	>14 litr y funud a/ neu'n gollwng yn barhaus
1						
2						
3						
4						
5						
6						
7						
8						
Cawodydd	Lleoliad	Diferu		Isel	Canolig	Uchel
		ydy	nac ydy	<10 litr y funud	10-20 litr y funud	>20 litr y funud
1						
2						
3						
Toiledau	Lleoliad	Diferu		Isel	Canolig	Uchel
		ydy	nac ydy	Seston < 6 litr	Seston 6-9 litr	Seston > 9 litr
1						
2						
3						
4						
Wrinalau	Lleoliad	Diferu		Gweithrediad y fflysh		
		ydy	nac ydy			
1						
2						

B) Defnyddio'ch mesurydd dŵr i wirio am ollyngiadau preifat (os yw'n ddiogel i wneud hynny).

Mae'n werth gwirio hefyd i sicrhau nad yw pibellau nad ydynt yn weladwy yn gollwng.

Sicrhewch nad oes dŵr yn cael ei ddefnyddio a bod eich falf fewnol ar agor ac yna cymerwch ddarlleniad o'ch mesurydd dŵr.



Cofiwch, eich cyfrifoldeb chi yw trwsio gollyngiadau preifat. Os oes angen, gallwch gysylltu â phlymwr cymeradwy lleol am gymorth yn WaterSafe. www.watersafe.org.uk

Os nad ydych eisoed yn gwybod ble mae eich mesurydd dŵr wedi'i leoli, cysylltwch â ni ar 0800 052 0140.

I gadarnhau eich bod yn edrych ar y mesurydd dŵr cywir, mae rhif cyfresol eich mesurydd i'w weld ar eich bil dŵr.

Am ragor o wybodaeth, gallwch ddod o hyd i ganllaw 'Eich mesurydd dŵr' [yma](#).

Cam 2 – Dewch i adnabod sut yr ydych yn defnyddio dŵr

A) Casglu data ar eich ffitiadau

Dilynwch y canllawiau isod i fesur llif/cyfaint yr holl ffitiadau dŵr sydd wedi'u nodi gennych yn y Log Gosodiadau a Ffitiadau ar dudalen 5. Gwnewch nodyn o'ch canfyddiadau yn y golofn briodol 'Isel', 'Canolig' neu 'Uchel' yn y Log Gosodiadau a Ffitiadau.

Tapiau

Ar gyfer y cam hwn bydd angen cynhwysydd mesur mawr (1 i 2 litr) a watsh amseru. Dylai'r tap fod yn gwbl agored, ar y tymheredd y mae'n cael ei ddefnyddio amlaf os yw'n 'dap cymysgu'. Mesurwch faint o ddŵr (mewn litrau) sydd yn y cynhwysydd ar ôl 6 eiliad. Lluoswch y swm hwnnw â 10 i gyfrifo'r gyfradd llif bresennol (mewn litrau y funud). Er enghraifft, $0.8 \text{ litr} \times 10 = 8 \text{ litr y funud}$.

Cawodydd

Ar gyfer y cam hwn bydd angen cynhwysydd mesur mawr (1 i 2 litr) a watsh amseru. Gyda phen y gawod yn gwbl agored, mesurwch faint o ddŵr (mewn litrau) sydd yn y cynhwysydd ar ôl 6 eiliad. Lluoswch y swm hwnnw â 10 i gyfrifo'r gyfradd llif bresennol (mewn litrau y funud). Er enghraifft, $1.1 \text{ litr} \times 10 = 11 \text{ litr y funud}$.

Sestonau toiledau

Ar gyfer y cam hwn dim ond tâp mesur fydd ei angen arnoch. I goel amcan rhesymol o gyfaint fflysh toiled mesurwch ddimensiynau mewnol y seston. Os yw'r seston fwy neu lai yn hirsgwar, mesurwch ei led a'i ddyfnder (mewn cm). Yna mesurwch o dop lefel y dŵr y tu mewn i'r seston i lawr i'r lefel isaf a gaiff ei chyrraedd pan fydd y fflysh ar waith (mewn cm). Lluoswch y tri mesuriad, yna rhannwch â 1,000 i gyfrifo cyfaint y fflysh presennol (mewn litrau). Er enghraifft, $30\text{cm o led} \times 15\text{cm o ddyfnder} \times 30\text{cm dyfnder} = 13,500\text{cm}^3 / 1,000 = 13.5 \text{ litr}$.

Wrinalau

Monitro a deall yr amledd y mae wrinalau fel arfer yn cael eu defnyddio a'u fflysio.

B) Casglu data o'ch mesurydd

Darllenwch y mesurydd (dim ond os yw'n ddiogel i wneud hynny) ddwywaith bob dydd ar yr un amser dros gyfnod o wythnos – gallwch ddefnyddio'r Cofnod Darllen Mesurydd dyddiol isod. Mae angen cymryd darlleniad ar ddechrau'r diwrnod gwaith ac ar ddiwedd y diwrnod gwaith i gofnodi pob defnydd yn ystod y cyfnod hwn. Nodwch unrhyw weithgareddau sy'n defnyddio cyfeintiau mawr o ddŵr yn ystod y cyfnod hwn (e.e. defnyddio piben ddyfrhau neu lenwi tanciau) a chofnodi'r diwrnod a'r amser y maent yn digwydd.

Am fwy o wybodaeth gallwch ddod o hyd i ganllaw ar 'Sut i ddarllen eich mesurydd dŵr' [yma](#).

Cofnod Darlleniadau Mesurydd

		Darlleniad Mesurydd (m ³)	Dŵr a ddefnyddiwyd	Gweithgareddau sy'n defnyddio llawer o ddŵr
Dydd Llun	Bore			
	Nos			
Dydd Mawrth	Bore			
	Nos			
Dydd Mercher	Bore			
	Nos			
Dydd Iau	Bore			
	Nos			
Dydd Gwener	Bore			
	Nos			
Dydd Sadwrn	Bore			
	Nos			
Dydd Sul	Bore			
	Nos			

Cymerwch ddarlleniadau dim ond pan fo'n ddiogel i wneud hynny.

Mae costau dŵr sy'n cael ei ddefnyddio a thaliadau carthffosiaeth cysylltiedig i'w gweld yn ein Cynllun Costau yn **dwrcymru.com**



DEALL

Cam 3 – Dadansoddi'r canlyniadau

A) Data o adolygu eich ffitiadau

Gan sicrhau eich bod wedi cofnodi cyfraddau llif cyfredol a meintiau sestonau yn y golofn gywir (gan ddefnyddio'r canllawiau isod), bydd eich Log Gosodiadau a Ffitiadau ar dudalen 5 yn tynnu sylw at unrhyw aneffeithlonrwydd o ran gosodiadau a ffitiadau presennol.

 TAPIAU	Uchel	>14 litr y funud a/neu dap yn diferu'n barhaus
	Canolig	9-14 litr y funud
	Isel	< 9 litr y funud
 TOILEDAU	Uchel	>9 litr
	Canolig	6-9 litr
	Isel	<6 litr
 CAWODYDD	Uchel	>20 litr y funud
	Canolig	10-20 litr y funud
	Isel	<10 litr y funud
 URINALS	Mae'n bwysig iawn cofio monitro a deall amledd y fflysh ar unrhyw wrinalau, yn ogystal ag amledd eu defnyddio fel arfer. Meddyliwch a yw amledd fflysio yn annigonol, amhriodol neu eithafol.	

B) Data o'ch mesurydd dŵr

Edrychwch ar eich Cofnod Darlleniadau Mesurydd wedi'i gwblhau ar dudalen 8. Ystyriwch yr adegau pan fo'r adeilad yn wag e.e. dros nos. Oes unrhyw ddŵr yn cael ei ddefnyddio? Os felly, gallai hyn fod oherwydd sestonau'n fflysio'n barhaus neu o bosib dŵr yn gollwng.

Ystyriwch y tueddiadau dyddiol. A oes unrhyw wahaniaethau o ran faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar wahanol ddiwrnodau? Os felly, ceisiwch nodi ble mae'r dŵr yn cael ei ddefnyddio ac a yw hyn yn angenrheidiol.

Edrychwch ar faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio ar gyfer gweithgareddau cyfaint mawr ac aseswch a yw'n ymddangos bod hyn yn faint rhesymol.



GWEITHREDU

Cam 4 – Datblygu cynllun gweithredu

A) Trwsio unrhyw ddŵr sy'n gollwng o bibellau preifat

Cysylltwch â phlymwr cymeradwy lleol o WaterSafe i drwsio unrhyw ollyngiad(au) a nodwyd o bibellau preifat. www.watersafe.org.uk

B) Trwsio neu rhwch ffitiadau newydd yn lle unrhyw rai sy'n 'diferu'

Os oes unrhyw dapiau'n diferu, cynlluniwch i roi washer newydd yn y tap cyn gynted â phosibl. Os yw pennau unrhyw gawodydd yn diferu, cynlluniwch i osod rhai newydd cyn gynted â phosibl (gweler cam 4C).

Ar gyfer unrhyw wrinalau neu sestonau sy'n fflysio/rhedeg yn gyson, cynlluniwch i'w trwsio. Gallwch ddod o hyd i'ch plymwyr cymeradwy lleol i helpu i drwsio ffitiadau dŵr yn WaterSafe: www.watersafe.org.uk

C) Gosod dyfeisiau sy'n effeithlon o ran dŵr

Ystyriwch osod dyfeisiau effeithlon o ran dŵr ar y ffitiadau sydd wedi'u nodi'n ddefnyddwyr dŵr canolig a/neu uchel yn eich Log Gosodiadau a Ffitiadau (tudalen 5):

Tapiau

Gallwch ychwanegu awyryddion tapiau neu eu newid am dapiau chwistrellu i helpu i leihau'r llif. Hefyd, os yw staff neu gwsmeriaid yn gadael tapiau'n rhedeg yn rheolaidd, gall tapiau gwthio neu dapiau hunan-gau fod yn fuddsoddiad buddiol i'ch busnes. Os oes gennych dapiau gwthio neu dapiau hunan-gau eisoes, yna mae'n bwysig sicrhau eu bod ond yn llifo gyhyd ag sydd eu hangen.

Sestonau toiledau

Mae bagiau 'Arbed Fflysio' yn ychwanegiad syml iawn i leihau defnydd dŵr sestonau 1.2 litr bob tro y cânt eu fflysio. Gall dyfeisiau fflysio deuol fod yn fuddsoddiad gwerthfawr.

Wrinalau

Os yw eich wrinalau'n gweithredu ar amser, gan fflysio pob cyfnod penodol, er gwaethaf beth yw defnydd yr wrinalau, ystyriwch a all eich busnes elwa ar osod Rheolwyr Fflysio Wrinalau sy'n cael ei gychwyn gan synhwyrydd. Gall hyn leihau eich defnydd drwy sicrhau bod yr wrinalau ond yn fflysio pan fo'u hangen.

Cawodydd

Gall newid pennau cawod presennol am ddewisiadau mwy effeithlon leihau llif. Yn ogystal, mae'n werth ystyried:

Piben ddyfrhau

Gollyngfeydd cau, eu disodli â chwistrelli gwasgedd uchel, neu a ellir defnyddio bwcedi ar gyfer rhai gweithgareddau.

Mae nifer o gynhyrchion effeithlonrwydd dŵr o safon uchel ar gael trwy'r Porth Cynnyrch – Arbed Dŵr Arbed Arian: <https://savewatersavemoney.co.uk/products/taps>.

D) Adolygu'ch Cofnod Darlleniadau Mesurydd

Os oedd eich Cofnod Darlleniadau Mesurydd (tudalen 8) yn dangos unrhyw ddefnydd dros nos, cymerwch ddarlleniadau newydd ar ôl cwblhau camau 4A - 4C, i gadarnhau bod y defnydd annisgwyl wedi dod i ben.

Os oedd eich Cofnod Darlleniadau Mesurydd (tudalen 8) yn dangos unrhyw dueddiadau dyddiol annisgwyl, yna cymerwch ddarlleniadau newydd ar ôl cwblhau camau 4A - 4C, i gadarnhau bod y newidiadau wedi lleihau/dod i ben.

E) Codi ymwybyddiaeth staff a chwsmeriaid

Codwch ymwybyddiaeth staff drwy roi gwybod iddynt sut yr ydych yn ceisio lleihau defnydd dŵr y busnes, trafodwch sut y gallan nhw helpu (e.e. peidio â gadael tapiau/piben ddyfrhau yn llifo) a'u hannog i roi gwybod am unrhyw ddŵr sy'n gollwng. Mae gennym bosteri y gallwch eu hargraffu a'u harddangos ar eich safle er mwyn hybu effeithlonrwydd dŵr i'ch staff a/neu gwsmeriaid **yma**.

F) Cofnodi a chymharu eich darlleniadau mesurydd eich hun

Bydd cofnodi darlleniadau mesuryddion yn rheolaidd (bob dydd, yn wythnosol, neu'n fisol) yn eich galluogi i barhau i nodi tueddiadau defnydd dŵr y gallwch ymchwilio iddynt, a mynd i'r afael â nhw yn ôl yr angen. Nodwch ddyddiadau i gymryd darlleniadau mesurydd yn eich dyddiadur. Gallwch gofnodi'r defnydd dŵr, tebyg i dudalen 8, mewn taenlen a fydd yn caniatáu i chi lunio graffiau sy'n ei gwneud hi'n haws o lawer i weld y data.

Os hoffech ymchwilio i logio defnydd dŵr yn awtomataidd drwy ein gwasanaeth logio data, a elwir hefyd yn telemetreg*, cysylltwch â'r Tîm Gwasanaethau Busnes ar **0800 260 5052** or drwy e-bost i **bst@dwrcymru.com**.

Gallwch ddysgu mwy am gofnodi data yma: **<https://business.dwrcymru.com/cy-gb/business-services/data-logging>**

*Codir tâl am gynhyrchion a gwasanaethau gwerth ychwanegol fel logio data

G) Cymharu biliau

Cofiwch gymharu biliau newydd â biliau blaenorol bob amser i chwilio am newidiadau annisgwyl yn y defnydd.

Crynodeb

Beth bynnag yw maint eich busnes, gallwch wneud llawer eich hun gydag ychydig o newidiadau bach am gost fach neu ddim cost. Gyda'r camau sydd wedi'u cynnwys yn y canllawiau hyn, mae arbed dŵr yn haws nag y byddech chi'n ei feddwl.

Bydd gwneud rhai newidiadau syml i'ch busnes yn eich helpu i arbed dŵr, arbed arian a lleihau eich ôl troed carbon. Mae'n well i chi, ac yn well i'r amgylchedd.



YR HYN A WNAWN

Mae ein Tîm Gwasanaethau Busnes yma i gynnig gwasanaeth rheoli cyfrifon am ddim i'n cwsmeriaid busnes — gan weithredu fel un pwynt cyswllt ar gyfer unrhyw ymholiadau bilio, gweithredol neu gyffredinol sydd gennych.

Rydym yma i helpu eich busnes hefyd i fod mor effeithlon â phosibl. Trwy ein hamrywiaeth o gynhyrchion a gwasanaethau gwerth ychwanegol, gallwn eich helpu i ddefnyddio llai o ddŵr a lleihau costau.

Cysylltwch â ni i weld sut y gallai ein gwasanaethau fod o fudd i'ch busnes



0800 260 5052



business.dwrcymru.com



bst@dwrcymru.com

